# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>11 MAWRTH, 2020 am 10.00 o'r gloch yb | | WEDNESDAY,<br>11 MARCH, 2020 at 10.00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 4 Chwefror, 2020.

4 **PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS MEWN PWYLLGORAU SGRIWTINI** (Tudalennau 11 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

5 **ADRODDIAD CYNNYDD AR GYFLAWNI'R CYNLLUN LLESIANT GAN Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN** (Tudalennau 21 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

6 **DATBLYGU DARPARIAETH HAMDDEN AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL** (Tudalennau 33 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd Dros Dro.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 51 - 56)

Cyflwyno adroddiad gany Rheolwr Sgriwtini

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitemau 5 a 6),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (CWO) (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu a Gwella Ansawdd (AH) (ar gyfer eitem 6),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes.<br><br>Mr Dafydd Gruffydd – Menter Môn,<br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru),<br>Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Eric W Jones (gwahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 3, fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru).<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (gwahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 3, fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gwahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 4 fel cynrychiolydd y Cyngor ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru).<br><br>Mr Gwyn Jones – Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (mewn perthynas ag Eitem 3).<br><br>Mr Arfon Jones – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) mewn perthynas ag Eitem 4).<br><br>Uwcharolygydd Richie Green (Gwynedd ac Ynys Môn) (mewn perthynas ag Eitem 4). |

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 (cyflwyniad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) ac mewn perthynas ag Eitem 4 (cyflwyniad gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru). Gwahoddwyd y Cynghorydd Rees i fod yn bresennol mewn perthynas â'r ddwy eitem gan ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar y ddau gorff allanol.

Datganodd y Cynghorydd Eric W Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 (cyflwyniad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) gan ei fod wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol fel cynrychiolydd y Cyngor ar y corff allanol.

## 3 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Mr Gwyn Jones, Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, i'r cyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Mr Gwyn Jones ar swyddogaethau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â diogelwch tân, ymladd tân, mynychu damweiniau ffyrdd ac argyfyngau (achub o ddŵr/llifogydd) yn unol â Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Dywedodd bod yr ystadegau o ddeg mlynedd yn ôl yn dangos bod Gogledd Cymru â'r gyfradd uchaf o farwolaethau ymysg y boblogaeth o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru a Lloegr ac ystyriwyd bod hynny'n annerbyniol. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Prif Swyddogion Tân i archwilio strategaeth a pholisïau'r Gwasanaeth ar gyfer atal marwolaethau damweiniol o ganlyniad i danau yn y cartref ynghyd ag adolygu prosesau rheoli perfformiad a phroffilio dioddefwyr ac achosion o dân. Cyfeiriodd Mr Jones at y ffactorau sy'n cyfrannu at farwolaethau damweiniol oherwydd tanau sef, bod ar eich pen eich hun; oedran (roedd mwy na hanner dros 60 oed); bod ag anabledd; byw mewn eiddo rhent; ysmygu a gadael bwyd yn coginio heb neb yn edrych ar ei ôl; alcohol a chyffuriau a diffyg larymau tân sy'n gweithio. Dywedodd bod proffil y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cael ei adolygu a chydweithiwyd â gwasanaethau yn yr awdurdodau lleol, yr heddlu, yr ymddiriedolaeth iechyd ac asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth ac adnabod pobl fregus er mwyn osgoi achosion posibl o danau a marwolaethau damweiniol. Cyfeiriodd hefyd at gynllun recriwtio Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Ynys Môn sydd wedi arwain at recriwtio 10 person.

Cyfeiriodd Mr Jones at yr Adroddiad Rheoli Perfformiad - Ebrill 2019 i Fedi 2019 a ddosbarthwyd i Aelodau'r Pwyllgor. Nododd bod y Gwasanaeth wedi delio gyda chyfanswm o 6,601 o alwadau brys ac wedi mynychu 2,653 o ddigwyddiadau yn ystod hanner cyntaf 2019/20. Roedd y Gwasanaeth wedi mynychu ychydig mwy o ddamweiniau ffyrdd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Ychwanegodd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian i liniaru pwysau ar Wasanaethau Brys eraill mewn perthynas â 'Syrthio yn y Cartref' yn

2018. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi llwyddo i fynd at berson a oedd wedi syrthio yn y cartref o fewn un awr gan olygu, o bosib, nad oedd y person hwnnw wedi gorfod bod ar y llawr am amser hir ac nad oedd rhaid iddo fynd i'r ysbyty i dderbyn triniaeth. Fodd bynnag, mae'r arian ar gyfer y cynllun 'Syrthio yn y Cartref' wedi dod i ben erbyn hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) am ei gyflwyniad. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:-

- Gofynnwyd a oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynorthwyo neu'n gyfrifol am y cynllun 'Syrthio yn y Cartref' ar ran Gwasanaeth Ambiwlans yr Ymddiriedolaeth Iechyd. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) bod y cynllun 'Syrthio yn y Cartref' yn gynllun peilot hynod o lwyddiannus a bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu ymateb yn gyflymach na'r Gwasanaeth Ambiwlans oherwydd y pwysau y maent yn ei wynebu. Dywedodd bod yr ystadegau yn dangos bod llai o gleifion wedi gorfod mynd i'r ysbyty ac mae hynny wedi lleihau pwysau ar yr ymddiriedolaeth iechyd. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dod â'r cyllid ar gyfer y cynllun 'Syrthio yn y Cartref' i ben gan fod y dystiolaeth yn tystio i lwyddiant y cynllun. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor yn mynegi siom bod y cynllun peilot 'Syrthio yn y Cartref' wedi dod i ben ac yn nodi bod angen i Lywodraeth Cymru ailystyried cynllun o'r fath;
- Cyfeiriwyd at recriwtio Ymladdwyr Tân ac roedd yn amlwg bod y Gwasanaeth Tân yn Ynys Môn yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) bod recriwtio o fewn cymunedau lleol yn bwysig a bod unrhyw berson sy'n gwirfoddoli i fod yn Ymladdwr Tân yn derbyn cyflog.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi siom bod y cyllid ar gyfer y cynllun 'Syrthio yn y Cartref' wedi dod i ben ac y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried darparu cyllid ar gyfer y cynllun hwn.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 4 COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Mr Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Uwcharolygydd Richie Green (Gwynedd ac Ynys Môn) i'r cyfarfod.

Siaradodd Mr Arfon Jones am rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Yn dilyn ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn 2012, dywedodd bod dyletswydd arno i gynhyrchu Cynllun Heddlu a Throsedd o fewn 12 mis o gychwyn yn y swydd. Mae'r Cynllun yn amlinellu cyfeiriad strategol Heddlu Gogledd Cymru yn ystod ei

gyfnod fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Dywedodd ei fod wedi nodi pump o flaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017-2021 fel a ganlyn :-

- **Cam-drin Domestig**

    - Bob dydd mae Heddlu Gogledd Cymru yn cofnodi 26 o ddigwyddiadau domestig ar gyfartaledd. Yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf, cafodd 936 o ferched eu lladd gan ddynion yng Nghymru a Lloegr;
    - Cam-drin domestig yw'r risg mwyaf sy'n wynebu Heddlu Gogledd Cymru oherwydd yr effaith eang ar y dioddefwr (corfforol, ffisiolegol ac ariannol), y nifer o droseddau a gofnodir ac am fod achosion yn cynyddu.

- **Caethwasiaeth Fodern**

    - Term a ddefnyddir i gyfeirio at ecsploetio pobl fregus drwy weithgareddau megis masnachu pobl a llafur dan orfodaeth yw Caethwasiaeth Fodern. Yn aml mae hwn yn drosedd gudd, ac mae dioddefwyr yn gyndyn o fynd at yr heddlu oherwydd eu bod yn cael eu rheoli ac yn byw mewn ofn.
    - Mae angen sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr ac nad ydynt yn cael eu cyhuddo o droseddau eraill megis mewnfudo anghyfreithlon, puteindra neu ddwyn;
    - Mae Gogledd Cymru yn ardal allweddol ar gyfer Caethwasiaeth Fodern yn y DU oherwydd Porthladd Caergybi.

**Troseddu Difrifol a Threfnedig**

- Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod troseddu difrifol a threfnedig yn un o'r bygythiadau mwyaf i ddiogelwch cenedlaethol y DU ac mae'r gost i'r DU dros £24 biliwn y flwyddyn. Mae'r Strategaeth Genedlaethol Troseddu Difrifol a Threfnedig yn seiliedig ar y fframwaith a ddefnyddir ar gyfer gwrthderfysgaeth ac mae'n amlinellu'r camau fydd yn cael eu cymryd i atal pobl rhag ymwneud â throsedd difrifol a threfnedig, cryfhau mesurau amddiffyn yn ei erbyn a'r ymateb iddo, ac erlid y troseddwyr;
- Ymchwiliwyd i nifer o achosion o droseddau difrifol a threfnedig ym Mhorthladd Caergybi ac ar draws Gogledd Cymru.

- **Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant)**

    - Mae llawer iawn o achosion o drais ac ymosodiadau rhyw difrifol yn cael eu hadrodd i'r heddlu ac yn aml mae'r troseddwr yn bartner i'r dioddefwr neu'n berson y maent yn eu hadnabod. Fodd bynnag, mae angen annog dioddefwyr i roi gwybod am y digwyddiadau hyn.
    - Sefydlwyd Tîm gan Heddlu Gogledd Cymru i daclo camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r heddlu yn cydweithio gyda sefydliadau eraill hefyd i sicrhau bod popeth y gellir ei wneud i ddiogelu'r plant hyn yn cael blaenoriaeth deilwng. Yn ogystal, bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau o 'feithrin perthynas amhriodol ar-lein' (online grooming) ar draws y wlad.

- **Darparu Cymunedau Mwy Diogel**

    - Mae presenoldeb gweledol yr heddlu yn atal troseddau sy'n digwydd mewn mannau cyhoeddus ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r mwyafrif o'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu eu cysylltiadau â'r heddlu;
    - Cafwyd ymgyrch lwyddiannus yng Nghaergybi yn dilyn achos o bobl ifanc yn tarfu ar ardal gerllaw siop prydau cyflym. Derbyniodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wobr am gynorthwyo'r bobl ifanc i fynychu gweithgareddau lleol yn hytrach na chreu niwsans i drigolion lleol yng nghyffiniau'r siop prydau cyflym.

Ychwanegodd Mr Jones ei fod yn dymuno amlygu'r gwaith partneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor Sir, y mae parch mawr iddo, a chyfeiriwyd hefyd at y rhaglen 'Camau Cynnar gyda'n Gilydd'. Mae'r rhwydwaith ddysgu Camau Cynnar gyda'n Gilydd ar gyfer profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a'r heddlu mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Y nod yw rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ac ymchwil ynghylch y profiadau hyn yn ogystal ag arfer orau ac adnoddau. Mae'r rhaglen wedi lleihau nifer yr atgyfeiriadau diogelu i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, dywedodd Mr Jones mai ei weledigaeth yw atal troseddwyr rhag aildroseddu. Cyfeiriodd at y rhaglen 'Checkpoint' Cymru sydd â'r nod o gadw mân droseddwyr allan a drwbl ac allan o'r llysoedd. Yn bennaf, problemau cyffuriau ac iechyd meddwl sydd gan rai troseddwyr ac mae'r rhaglen 'Checkpoint' yn ceisio darparu cyrsiau i gynorthwyo a chefnogi pobl yn eu cymunedau.

Amlygodd yr Uwcharolygydd Richie Green faterion lleol ar Ynys Môn. Cyfeiriodd at waith partneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Lleol i ymateb i broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r rhesymau pam fod pobl yn troseddu. Ychwanegodd bod cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Awdurdod Iechyd lleol yn holl bwysig i waith yr Heddlu mewn perthynas â throseddu ymysg pobl fregus oherwydd problemau'n ymwneud â chyffuriau a phroblemau iechyd meddwl.

Diolchodd y Cadeirydd i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Uwcharolygydd Richie Green am eu cyflwyniad i'r Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y gwaith partneriaeth gyda'r Awdurdod Iechyd lleol mewn perthynas â phobl ifanc fregus sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gofynnwyd a oedd yr Awdurdod Iechyd ac asiantaethau eraill yn cyfrannu at waith ataliol mewn perthynas â phobl fregus a all fod mewn perygl o aildroseddu. Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod y sefyllfa wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â'r gefnogaeth a roddir i bobl fregus pan fyddant yn y ddalfa. Mae Swyddogion y Ddalfa a Staff Ystafelloedd Rheoli wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn â sut i ddelio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl a dengys ystadegau bod yr ymateb i bobl mewn argyfwng wedi gwella.

Dywedodd yr Uwcharolygydd Richie Green bod y gefnogaeth i bobl fregus sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi gwella'n sylweddol oherwydd bod asiantaethau partner yn cyfarfod yn rheolaidd;

- Nodwyd bod aelodau etholedig yn derbyn cwynion rheolaidd gan drigolion lleol ynghylch y rhif ffôn 101 ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys. Cytunodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod problem gyda'r rhif 101 ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys. Dywedodd bod angen gweithredu system ar-lein er mwyn rhyddhau staff yn y Ganolfan Reoli i ddelio â galwadau brys.
- Nodwyd y bu gostyngiad yn y ffigyrau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddiweddar. Cyfeiriodd Aelod at ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Llangefni yn ddiweddar a gofynnodd faint o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) sy'n cael eu cyflogi yn yr ardal. Dywedodd yr Uwcharolygydd Richie Green y bu gostyngiad yn nifer y SCCH ar yr Ynys ond bod 5 o Swyddogion Heddlu ychwanegol wedi cael eu cyflogi er mis Hydref 2019. Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y rhagwelir y bydd 200 o Swyddogion Heddlu ychwanegol yn cael eu cyflogi yn ystod y 3 mlynedd nesaf ond pwysleisiwyd mai dim ond Swyddogion Heddlu y gellir eu cyflogi drwy'r broses recriwtio, nid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu;
- Dywedodd Aelodau bod cynnydd amlwg yn y defnydd o'r cyffur cocên yn hytrach na heroin. Dywedodd yr Uwcharolygydd Richie Green y daeth i'r amlwg yn ystod yr ymgyrch 'yfed a gyrru' dros y Nadolig bod defnyddwyr tro cyntaf yn defnyddio mwy o'r cyffur cocên yn hytrach na chanabis, at ddefnydd hamdden. Nododd bod hyn yn fater o bryder gan ei fod ynghlwm â phroblem 'county lines' yng Ngogledd Cymru.
- Gofynnwyd a yw Heddlu Gogledd Cymru'n delio gyda thwyll 'ar-lein' ac ar y ffôn. Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei fod yn bwriadu sefydlu Tîm i ymchwilio i dwyll yn erbyn pobl fregus, fel rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Dywedodd fod achosion niferus lle mae pobl wedi colli swm sylweddol o arian oherwydd twyll 'ar-lein' ac ar y ffôn. Erbyn hyn mae banciau'n gweithio gyda'r Heddlu i atal trafodion amheus o gyfrifon banc.

Diolchodd y Cadeirydd i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Uwcharolygydd Richie Green am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Dim**

**5 CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL - 2020/2024**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi dyhead yr Awdurdod am gydraddoldeb er mwyn creu cymdeithas decach i holl ddinasyddion Ynys Môn ac i helpu'r Cyngor gyflawni ei weledigaeth ar gyfer Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y swyddog Arweiniol mewn perthynas â Chydraddoldeb ar yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol a bod rhaid adolygu ei amcanion o leiaf bob pedair blynedd. Mae'n rhaid cyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer y cyfnod 2020-2024 a phwrpas y Cynllun yw nodi'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol mewn perthynas â chydraddoldeb. Nodwyd y bydd y Cynllun ar gyfer 2020/2024 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn er mwyn ei gymeradwyo.

Dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth bod amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2020/20204 sydd ynghlwm i'r adroddiad yn seiliedig ar y prif heriau sy'n wynebu Cymru, y mae angen rhoi sylw iddynt, a nodwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?'. Mae'r amcanion yn seiliedig hefyd ar flaenoriaethau rhanbarthol a nodwyd drwy waith ymgysylltu ar y cyd a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN) a blaenoriaethau lleol a nodwyd drwy ymgysylltu â Rhwydwaith Llesiant Medrwn Môn.

Adroddodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth bod y Cyngor yn cydnabod y gofynion statudol i gynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb a bod cynnal asesiadau cadarn yn ffordd effeithiol o wneud yn siŵr bod unrhyw feysydd lle gall anghydraddoldeb fodoli yn cael eu nodi a'u bod yn derbyn sylw prydlon, a bod sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod o ran cwblhau asesiadau effaith effeithiol wedi ei nodi fel blaenoriaeth yn 2011/2012. Trwy gydol y cyfnod hwn mae trefniadau'r Cyngor wedi cael eu datblygu'n barhaus gyda'r nod o brif-ffrydio'r broses hon i waith dydd i ddydd y Cyngor.

Cyfeiriodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth at adran 5.1 yn y Cynllun – 'Gwella diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder'; bydd mwy nag un sefydliad yn cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth hon, gyda'r Cyngor yn cyfrannu at yr agwedd diogelwch personol a'r heddlu at agweddau eraill.

Amlinellodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth y blaenoriaethau o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft ar gyfer 2020/2024 a nododd nad yw pob un o'r blaenoriaethau'n berthnasol i bob gwasanaeth o fewn yr Awdurdod a rhoddodd enghraifft, sef bod amcan 3 yn y Cynllun yn cyfeirio at wella mynediad ffisegol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored; mater i'r Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fyddai mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon. Dywedodd bod y blaenoriaethau wedi cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws Wasanaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd bod rhaid pwysleisio bod cyfrifoldeb ar Aelodau Etholedig a Staff i roi sylw i Gydraddoldeb fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor. Dywedodd hefyd nad yw'r gwaith wedi'i gyfyngu i gyflawni'r blaenoriaethau sydd yn y Cynllun oherwydd gall blaenoriaethau eraill ddod i'r amlwg y bydd angen rhoi sylw iddynt.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol:-

- Gofynnwyd pwy oedd wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth bod

y Cyngor wedi blaenoriaethu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â'r sail dystiolaeth a'r angen i fynd i'r afael â'r materion a godwyd;

- Gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn bwriadu cryfhau'r broses o ymgysylltu ag unigolion sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth bod y Cyngor wedi ymgysylltu â Rhwydwaith Llesiant Medrwn Môn i ganfod beth oedd y blaenoriaethau a'r pryderon lleol. Ar ôl drafftio'r blaenoriaethau yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft ymgynghorwyd â Medrwn Môn ynghylch y blaenoriaethau drafft a nodwyd.

**PENDERFYNWYD :-**

- **bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020/2024;**
- **bod trefniadau'n cael eu rhoi mewn lle i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fonitro cynnydd mewn perthynas â chydraddoldeb yn flynyddol, fel mater o drefn.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU - 2018/19

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr Adroddiad Blynyddol yn darparu trosolwg o waith Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019, a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion allweddol ar draws y rhanbarth er mwyn diogelu pobl. Dywedodd bod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn Fwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod y Cyngor, fel rhan o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor, yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn hawl i fod yn rhydd rhag niwed. Un o gyfrifoldebau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn diogelu'r bobl sy'n byw yn y siroedd hynny. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 yn ymwneud â sefydlu'r Byrddau Diogelu a'u swyddogaeth. Mae Rheoliadau 5 a 6 yn ymwneud â Byrddau Diogelu yn llunio Cynlluniau Blynyddol ac Adroddiadau Blynyddol. Nododd bod Canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl yn nodi mai amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw diogelu plant yn ei ardal sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'n dioddef mathau eraill o niwed, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed ac atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a yw awdurdod lleol yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio) ac sy'n

cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, ac atal yr oedolion hynny yn ei ardal rhag dod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae'r amcanion hyn o fewn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn berthnasol nid yn unig i awdurdodau lleol ond yr holl asiantaethau partner yng Ngogledd Cymru.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd at y blaenoriaethau a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Cyfeiriodd at gyflawniadau allweddol y Byrddau Diogelu yn ystod 2018/19 a dywedodd bod digwyddiad cymuned ymarfer wedi'i sefydlu i ddod â gwasanaethau ynghyd ac i rannu arfer dda, heriau ac ymchwil gyda gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau. Lansiwyd fideo diogelu 'Gweld Rhywbeth / Dweud Rhywbeth', sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu, a gall asiantaethau lleol ei defnyddio. Nododd bod nifer fawr o bobl yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu a bod yr holl asiantaethau sydd ynghlwm â diogelu yn wynebu gofynion, cymhlethdodau a disgwyliadau cynyddol a helaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol:-

- Nodwyd bod gan y Bwrdd Diogelu a'r Is-Grwpiau restr hir o gynrychiolwyr, a holwyd am bresenoldeb nifer o asiantaethau yn y cyfarfodydd hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac Is-grwpiau wedi gwella. Ychwanegodd bod cyflawniad yr Is-grwpiau yn helaeth a'i fod yn ystyried bod gan faterion diogelu broffil llawer uwch yng Ngogledd Cymru ers sefydlu'r Bwrdd Diogelu;
- Gofynnwyd a yw'r Ymddiriedolaeth Iechyd yn cymryd cyfrifoldeb am y Bwrdd Diogelu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod enghreifftiau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf pan fu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth Iechyd ymateb i faterion anodd yn gysylltiedig â diogelu, megis achos yr Uned Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru. Roedd y Bwrdd Iechyd yn atebol i Fwrdd Gogledd Cymru am y cynllun gweithredu;
- Cyfeiriwyd at lansiad 'Gweld Rhywbeth/Dweud Rhywbeth' gan y Bwrdd Diogelu. Gofynnwyd a yw'r cyhoedd yn gallu adrodd yn gyfrinachol am ddigwyddiadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod polisi chwythu'r chwiban mewn lle ar gyfer Aelodau staff yr Awdurdod a bod unigolion eraill sy'n adrodd am ddigwyddiadau yn cael eu diogelu hefyd ac nad oes angen iddynt bryderu y byddant yn cael eu targedu.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2018/19.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2020.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 10 Mawrth 2020 a nododd y bydd rhaid aildrefnu'r cyfarfod hwn oherwydd amgylchiadau annisgwyl ac

y gwneir trefniadau i newid dyddiad y cyfarfod. Dywedodd y bydd angen ail-raglennu'r eitem – Cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd ar gael.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Ebrill 2020.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.05pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11.03.20 |
| **Pwnc:** | Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ceisio barn y Pwyllgor Sgriwtini am y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn cyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid ei fabwysiadu. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Dafydd Rhys Thomas<br>Yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Mared Yaxley<br>01248 752566<br>mwycs@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Nid yw hwn yn fater sy'n ymwneud â ward benodol. |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| 1. Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cytuno i fabwysiadu'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn, ar yr amod bod y Cyngor yn ei gymeradwyo'n ffurfiol.<br><br>2. Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn gwneud unrhyw sylwadau ar gynnwys y Protocol, er mwyn eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwaith, cyn i'r Cyngor llawn benderfynu cymeradwyo'r Protocol ai peidio. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r mater yma'n gysylltiedig â threfniadau llywodraethiant sgriwtini (annog cyfranogiad cyhoeddus) – Cyfansoddiad y Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]** |

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Ym mha ffyrdd y bydd y Protocol yn sicrhau bod gwerth ychwanegol o ran cyfraniad y cyhoedd at brosesau craffu'r Cyngor?

2. I ba raddau y bydd y Protocol yn ffurfioli ac yn symleiddio'r broses i'r cyhoedd allu siarad mewn Pwyllgorau Sgriwtini?

3. Nodir bod mabwysiadu Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini yn sicrhau cydymffurfiaeth â datblygiadau deddfwriaethol, a ddylid ystyried gosod cyfnod o amser er mwyn adolygu gweithredu'r Protocol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Cefndir:

Yn unol ag adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Gynghorau Sir sicrhau bod y rheini sy'n byw neu'n gweithio yn eu hardal yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ar unrhyw fater sydd i'w ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi ymrwymo i'r egwyddor hon. Er bod trefniadau eisoes i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgorau Sgriwtini, nod cyflwyno'r Protocol Siarad Cyhoeddus yw darparu proses eglur a hwylus i'r cyhoedd fedru rhannu eu barn gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini fel rhan o drafodaethau'r pwyllgorau.

Nid yw'r trefniant presennol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini wedi ei nodi'n dryloyw mewn dogfen syml. Bydd cyflwyno'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall y broses y mae angen ei dilyn, gan sicrhau y mabwysiedir trefn gyson sy'n rheoli disgwyliadau'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfraniad.

Cyffredinol:

Bydd swyddogion yn gwneud y gwaith gweinyddol o dan y Protocol.

Mae datblygiadau deddfwriaethol diweddar wedi pwysleisio gofyniad cyfreithiol i wrando ar lais y cyhoedd a bod cynnwys y cyhoedd yn hanfodol pan fydd Cynghorau'n gwneud penderfyniadau.

O dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (a gyhoeddwyd ar 18/11/2019) y rhagwelir y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn ystod Haf 2020, mae adran 46 yn cynnwys dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol. Mae paragraff 46 (1) yn nodi: “Rhaid i brif gyngor **annog pobl leol i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau’r cyngor** (gan gynnwys gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall)." (fy mhwyslais i).

Mae adran 47 o'r Bil yn amlinellu dyletswydd ar Gynghorau i baratoi “strategaeth gyfranogi” gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i’r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithredu, sut mae'n gwneud penderfyniadau a **sut y gall pobl leol** ddilyn achos, **fynegi barn**, a chael sicrwydd bod y farn honno wedi ei chymryd i ystyriaeth” (fy mhwyslais i – papur Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y Bil). Mae paragraff 47 (2) (e) yn nodi: “Rhaid i strategaeth cyfranogiad cyhoeddus, yn benodol, fynd i’r afael â threfniadau a wnaed, neu sydd i’w gwneud, i ddibenion dyletswydd y cyngor dan adran 62 o Fesur 2011 (dod â barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu)”.

Yn ogystal, o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei gwasanaethu.

Byddai mabwysiadu Protocol Siarad Cyhoeddus ar gyfer Sgriwtini yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gyflawni'r amcanion statudol hyn.

Cyhoeddir y Protocol ar wefan y Cyngor a gellir ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

Manylion y Protocol:

Mae’r Protocol yn nodi:

Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gael siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini os ydynt wedi cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Swyddog Sgriwtini o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid gwneud y cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol o wefan y Cyngor ac anogir cyflwyno ceisiadau’n electronig. Caiff geisiadau sylw yn y drefn y cânt eu derbyn. Bydd pawb sy’n gymwys i siarad yn cael ei hysbysu trwy e-bost neu trwy rif ffôn cyswllt.

Lle mae gan bob grŵp neu blaid safbwynt gwahanol ar eitem benodol cyfyngir ar nifer y siaradwyr fel mai dim ond un person o bob grŵp neu blaid fydd yn annerch y cyfarfod. Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd y Cadeirydd yn caniatáu i ail / trydydd siaradwr

sy’n rhannu’r un safbwynt siarad, a defnyddir y fath ddisgresiwn mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Monitro.

Mae gan y cyhoedd hawl i siarad ar bob eitem ar y rhaglen ac eithrio'r canlynol: Ymddiheuriadau; Datganiadau o Ddiddordeb; Cofnodion; ac eitemau ar y Rhaglen y datganwyd nad ydynt i'w cyhoeddi (yn unol â'r Prawf Budd Cyhoeddus). Pan fydd y Pwyllgor Sgriwtini yn ystyried eitemau eithriedig, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r wasg a'r cyhoedd adael yr ystafell gyfarfod.

Nid yw'r hawl yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw aelod o CSYM, swyddog y Cyngor, gwahoddedigion sydd wrth law neu unrhyw siaradwr arall.

Er mwyn i aelodau fedru rhoi sylw llawn i unrhyw bwyntiau a wneir, rhaid i siaradwyr ddarparu unrhyw wybodaeth / ddogfennau ategol y maent yn bwriadu cyfeirio atynt yn eu cyflwyniadau pan fônt yn cofrestru i siarad. Ni cheir cyflwyno unrhyw wybodaeth / dogfennau ychwanegol yn y cyfarfod ei hun. Mae'r Protocol drafft yn mynd i'r afael ag addasrwydd unrhyw ddeunydd a gynhyrchir.
Rhoddir pum munud i bob siaradwr wneud eu cyfraniad llafar mewn perthynas ag eitem ar y rhaglen. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Cadeirydd yn caniatáu ychydig mwy o amser i siaradwyr ac os caniateir hyn ar gyfer un unigolyn, caniateir yr un faint o amser ychwanegol i bob unigolyn mewn perthynas â'r un eitem ar y rhaglen.

Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i atal siaradwyr cyn i'r amser a neilltuwyd iddynt ddod i ben os ydynt, ym marn y Cadeirydd, yn ymddwyn yn amhriodol, yn dramgwyddus, yn ceisio atal y Pwyllgor rhag gwneud ei waith neu'n gwneud sylwadau sy'n ddifenwol, yn flinderus, yn wahaniaethol neu'n sarhaus.

Gellir gofyn i siaradwyr egluro unrhyw un o'u sylwadau a gall yr aelodau ofyn cwestiynau iddynt. Ni chaniateir mynd i drafodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y siaradwr ac wedi hynny yn penderfynu a ddylid gwneud unrhyw argymhellion sy'n codi o'r sylwadau a wnaed / materion a godwyd.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| |

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad 1 – Canllawiau ar Drefniadau Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

**Arweiniad ar drefniadau Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 O dan adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Gynghorau Sir sicrhau bod y rheini sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ar unrhyw fater sydd i gael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi ymrwymo i'r egwyddor hon.

1.2 Mae CSYM yn annog cyfranogiad gweithredol gan y cyhoedd lle bynnag y mae hynny'n bosibl (gweler y ddolen i "Cymerwch ran yn Sgriwtini") ac mae cyfle'n bodoli i aelodau o'r cyhoedd siarad mewn Pwyllgorau Sgriwtini mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen. Bwriad yr Arweiniad hwn hyn yw sicrhau y bydd llais pobl a chymunedau lleol ar Ynys Môn yn cael eu clywed fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

1.3 Wrth wneud hyn, rhaid i CSYM sicrhau bod y weithdrefn yn deg ac yn drefnus. Mae'r arweiniad hwn wedi'i ddatblygu er mwyn cynorthwyo'r rhai hynny sy'n dymuno siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y broses i'w dilyn. Gobeithir hefyd, drwy nodi'r wybodaeth hon, ac i'r graddau y mae hynny'n bosibl, y bydd modd i aelodau'r cyhoedd gael profiad di-straen wrth siarad mewn Pwyllgor Sgriwtini.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae gan CSYM ddau Bwyllgor Sgriwtini. Y naill yw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r llall yw'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Mae Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad yn Erthygl 6 ac yn Rhan 4.

2.2 Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ydi gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor. Y Pwyllgor Gwaith/Cyngor, fel bo'n addas, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

2.3 Mae cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini ar agor i'r cyhoedd (gweler 2.4 isod).

2.4 Fodd bynnag, ar adegau, bydd y Pwyllgorau yn ystyried materion cyfrinachol e.e. gwybodaeth bersonol am unigolion neu ddata masnachol sensitif ac, ar yr adegau hyn, gofynnir i aelodau o'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra mae'r eitem yn cael ei hystyried. Rhaid i waharddiad o'r fath fod er budd y cyhoedd.

2.5 Bydd aelodau'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar faterion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Sgriwtini yn eu cyfarfodydd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd ar y wefan ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o leiaf tri diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod (oni bai bod penderfyniad yn cael ei wneud i eithrio'r cyhoedd rhag cael mynediad i'r papurau). Os mai dyna'r achos, bydd prawf budd y cyhoedd yn cael ei gynnwys ar y wefan; bydd hwn yn egluro pam mae mynediad yn cael ei gyfyngu.

2.6 Rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Sgriwtini yw "galw i mewn" benderfyniadau sydd wedi eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith ond sydd heb eu gweithredu eto. Fodd bynnag, bydd yr hawl i "alw i mewn" yn cael ei eithrio os ystyrir bod penderfyniad y

DRAFT

Pwyllgor Gwaith yn un brys. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fydd yn bosibl i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini ac felly ni fydd modd i'r cyhoedd gymryd rhan.

## 3.0 Presenoldeb y cyhoedd a siarad mewn Cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini.

### 3.1 Pwyntiau Cyffredinol

3.1.1 Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini yn gyhoeddus a gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg fynychu a gwrando ar y sgwrs. Does dim angen gwneud unrhyw drefniadau o ran hyn; mae gennych hawl i droi fyny heb rybudd.

3.1.2 Does gan y cyhoedd ddim hawl awtomatig i siarad mewn Pwyllgor Sgriwtini ond gallant ofyn am ganiatâd i wneud hynny ymlaen llaw yn unol â'r Arweiniad hwn.

3.1.3 Trafodir rhai eitemau mewn sesiynau caeëdig, pan fydd y Pwyllgor yn ystyried gwybodaeth gyfrinachol a nodwyd fel gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi (yn amodol ar y prawf budd y cyhoedd a nodir yn 2.4 uchod). Gofynnir i'r wasg a'r cyhoedd adael yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hyn. O ganlyniad, ni fydd unrhyw siarad cyhoeddus mewn perthynas â'r eitemau hyn.

3.1.4 Yn amlwg, ni fydd siarad cyhoeddus yn briodol ar eitemau agenda megis ymddiheuriadau am absenoldeb, datganiadau o ddiddordeb a chofnodion.

3.1.5 Nid yw'r hawl i siarad yn cynnwys yr hawl i ofyn cwestiynau i unrhyw aelod o CSYM, swyddogion y Cyngor, gwestai a wahoddwyd nac unrhyw siaradwr arall.

### 3.2 Camau angenrheidiol

3.2.1 Er mwyn cael siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini, rhaid i aelod o'r cyhoedd fod wedi cyflwyno **cais ysgrifenedig**, gan ddefnyddio'r ffurflen briodol, a'i hanfon at y Swyddog Sgriwtini. Ni fydd ceisiadau llafar i gael siarad yn cael ei cofrestru. Dylid defnyddio'r ffurflen ar y ddolen hon i wneud y cais ysgrifenedig a gellir cynnwys lluniau neu ddiagramau. Rhaid i gyfrannwr wneud hyn cyn gynted â phosibl **ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y Pwyllgor** (anogir pobl i gyflwyno eu ffurflenni yn electronig). Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu gwrthod yn awtomatig. Mae manylion cyswllt, ynghyd â chopi o'r ffurflen gais berthnasol ar gael ar wefan y Cyngor.

3.2.2 Caniateir i un person siarad o bob grŵp neu barti lle mae gan bob grŵp neu barti rywbeth gwahanol i'w ddweud mewn perthynas ag eitem. Gall unigolion sy'n arbenigwyr mewn maes penodol, neu sydd â safbwynt na chynrychiolir gan grŵp neu barti, hefyd gofrestru eu diddordeb i siarad yn y cyfarfod. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor ond yn caniatáu ail/trydydd siaradwr ac ati, sydd â'r un safbwynt, mewn achosion eithriadol a lle mae'n amlwg bod dadleuon gwahanol i'w clywed. Bydd hyn drwy ddisgresiwn y Cadeirydd ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Monitro.

Er enghraifft, mewn perthynas ag adroddiad yn trafod nifer o wahanol ysgolion, mae'n rhesymol caniatáu un siaradwr o bob ysgol ond nid yw'n rhesymol gadael i bob rhiant wneud cyfraniad unigol. Lle byddai eitem yn trafod Canolfannau

Hamdden er enghraifft, byddai'n rhesymol gadael i siaradwyr o wahanol grwpiau sy'n defnyddio'r ganolfan hamdden siarad ar y sail bod ganddynt i gyd bethau gwahanol i'w ddweud ac na fyddent yn ail adrodd yr un pwyntiau. Y pwynt yw ceisio sicrhau bod y Pwyllgorau yn clywed yr holl safbwyntiau ond nad yw cyfraniadau yn ailadroddus.

3.2.3 Bydd yr holl geisiadau ysgrifenedig yn cael eu cofnodi gan Swyddog Sgriwtini y Cyngor. Bydd y cais yn cynnwys manylion am bwy mae'r unigolyn yn ei gynrychioli (os yn berthnasol). Pan fydd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor, bydd yr unigolyn y mae ei enw'n ymddangos gyntaf ar y rhestr h.y. y person cyntaf i gofrestru eu diddordeb mewn siarad yn y Pwyllgor, mewn perthynas a bob grŵp / parti o bobl, yn cael y cyfle cyntaf i gadarnhau a ydynt dal yn dymuno siarad. Os nad yw'r person cyntaf i gofrestru bellach yn dymuno siarad, cynigir i'r ail berson ar y rhestr a ydynt yn dymuno siarad a bydd lle y person cyntaf ar y rhestr yn cael ei ildio. Yn yr un modd, os nad yw'r ail berson ar y rhestr yn dymuno siarad, cynigir i'r trydydd person ar y rhestr, ac yn y blaen. Unwaith y cynigir i'r person nesaf ar y rhestr, a bod y person hwnnw'n cadarnhau y byddant yn mynychu i siarad, ni all yr unigolyn blaenorol newid eu meddwl am eu dymuniad i siarad. Bydd y cynnig ond yn mynd yn ôl i'r person cyntaf i gofrestru os yw pawb arall ar y rhestr wedi cadarnhau nad ydynt yn dymuno siarad. Yn amlwg, nid yw hyn yn berthnasol i'r cyfranwyr hynny nad ydynt yn cynrychioli grwpiau/partïon.

3.2.4 Fe ddylai'r rhai hynny sy'n dymuno siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor gofrestru eu diddordeb i wneud hynny cyn gynted â phosibl drwy gadarnhau eu henwau a phwy maent yn gynrychioli, (os yn berthnasol) ac ni ddylid disgwyl i bapurau'r Pwyllgor gael eu cyhoeddi, er mwyn osgoi sefyllfa lle byddant yn methu'r dyddiad cau a nodir yn 3.2.1 uchod a/neu bod unigolion eraill eisoes wedi cofrestru i siarad. Bydd materion fel arfer yn rhan o ymgynghoriad ehangach ac felly bydd y cyhoedd yn ymwybodol o'r materion a fydd yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol, caiff unigolion eu hannog i adolygu Blaen Raglen Waith (BRW) y Pwyllgorau Sgriwtini sy'n nodi'r materion a fydd yn cael eu trafod.

3.2.5 Bydd y Swyddog Sgriwtini yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i'r rhai hynny sydd wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod o'r Pwyllgor ac yn eu hysbysu o amser, dyddiad a lleoliad y cyfarfod lle bydd yr eitem yn cael ei thrafod. Cyhoeddir rhaglenni Pwyllgorau o leiaf tri diwrnod gwaith clir cyn y Pwyllgor a bydd y rhain yn cynnwys manylion yr holl faterion a drafodir yn y cyfarfod hwnnw.

## 3.3 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini

3.3.1 Fel y nodwyd, bydd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini yn cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer, maent yn agored i'r wasg ac mae'r holl adroddiadau yn ddogfennau cyhoeddus oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol.

3.3.2 Cyn dechrau'r cyfarfod, fe ddylai cyfranwyr gyflwyno eu hunain i'r Swyddog Sgriwtini neu'r Swyddog Pwyllgor a byddant yn trefnu iddynt gyfarfod y Cadeirydd. Fe ddylai siaradwyr cyhoeddus ganiatáu digon o amser i hyn ddigwydd ac anelu i gyrraedd Cyswllt Môn (Prif dderbynfa Pencadlys Llangefni) tua 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod.

DRAFT

3.3.3 Gall siaradwyr gyfathrebu â'r Pwyllgor yn Gymraeg neu Saesneg (mae gwasanaeth cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod).

3.3.4 Mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini yn gwneud hynny mewn modd cyfrifol a pharchus er mwyn sicrhau bod eu cyfraniad mor effeithiol â phosibl.

3.3.5 Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob siaradwr i'r Pwyllgor pan fydd eu tro nhw i siarad.

3.3.6 Gofynnir i bob siaradwr symud i leoliad penodol o fewn yr ystafell gyfarfod lle bydd modd iddynt gael eu gweld a'u clywed gan holl aelodau'r Pwyllgor. Rhoddir **pum munud** i bob siaradwr wneud eu cyfraniad.

3.3.7 Caiff siaradwyr eu hannog i ystyried y canlynol:

3.3.7.1 Sicrhau bod sylwadau yn glir ac yn gryno ac yn uniongyrchol berthnasol i'r adroddiad y maent wedi gofyn am gael siarad arno.

3.3.7.2 Osgoi ailadrodd unrhyw bwyntiau a wnaed gan siaradwr blaenorol.

3.3.7.3 Cyfyngu eu safbwyntiau i'r manteision a'r anfanteision o'r cynigion yn yr adroddiad a thynnu sylw at sut y gallai'r adroddiad effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr. Awgrymu cynigion gwahanol.

3.3.8 Ni chaniateir i siaradwyr ddosbarthu dogfennau cefnogol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini nac i ddefnyddio cymorth gweledol / llafar (megis lluniau, diagramau neu recordiadau sain). Bydd unrhyw ddeunydd a dderbynnir gan y siaradwr yn unol â pharagraff 3.2.1 yn cael ei gylchredeg gan y Swyddog Sgriwtini ymlaen llaw, i aelodau'r Pwyllgor; yn amodol ar y cafeat bod y deunydd yn addas ar gyfer ei gyhoeddi. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn unol â disgresiwn y Swyddog Sgriwtini mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r swyddog arweiniol o'r gwasanaeth perthnasol.

3.3.9 Os yw siaradwr yn dal i siarad ar ôl pum munud, bydd y Cadeirydd fel arfer yn gadael iddynt orffen y frawddeg ac yna'n eu hysbysu eu bod wedi cyrraedd y trothwy amser. Ni chaniateir i gyfranwyr fynd dros eu hamser a hynny er mwyn sicrhau tegwch i unrhyw siaradwyr eraill. <u>Mewn amgylchiadau eithriadol</u>, gall y Cadeirydd ganiatáu ychydig mwy o amser i siaradwyr; os digwydd hynny, bydd siaradwyr eraill ar yr un eitem yn cael yr un faint o amser ychwanegol i siarad.

3.3.10 Unwaith y bydd y siaradwr wedi gorffen eu cyfraniad, gall y Cadeirydd ganiatáu i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r siaradwr er mwyn cadarnhau unrhyw bwyntiau sy'n codi. Ni ddylai'r siaradwr fynd i ddadlau ag unrhyw aelodau o'r Pwyllgor.

3.3.11 Bydd y siaradwr wedyn yn dychwelyd i'w sedd yn y galeri gyhoeddus.

3.3.12 Bydd y Pwyllgor yn trafod y mater cyn gwneud unrhyw benderfyniad ac yn ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir gan yr holl siaradwyr.

3.3.13 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl siaradwyr yn cael eu trin â chwrteisi a pharch. Bydd gan y Cadeirydd y disgresiwn i stopio siaradwr ar unrhyw adeg os yw, ym marn y Cadeirydd, yn siarad yn amhriodol, yn ymosodol neu os bydd yn ceisio

DRAFT

atal y Pwyllgor rhag gwneud ei waith neu'n gwneud sylwadau sy'n ddifrïol, yn flinderus, yn wahaniaethol neu'n dramgwyddus. Wrth lywyddu dros y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn ymarfer ei ph/bwerau a dyletswyddau mewn ffordd weithredol, deg a diduedd fel bod modd cyflawni busnes yn effeithlon a chan gymryd i ystyriaeth budd y gymuned.

3.3.14 Gall y siaradwr adael y cyfarfod ar unrhyw adeg ar ôl siarad.

## 4.0 Diogelu Data

4.1 Mae manylion cyswllt, yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn, yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r Arweiniad hwn yn y modd cywir ac er mwyn galluogi siaradwyr i fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini. Ni fydd manylion personol ond yn cael eu casglu at ddibenion gweinyddu siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini. Unwaith y bydd eitem wedi'i phenderfynu arni mewn Pwyllgor, bydd y manylion cyswllt yn cael eu dileu yn unol â'r Polisi Cadw Gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cyngor.

## 5.0 Crynodeb

**Fe ddylai unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini:**

- **Adolygu'r Flaen Raglen Waith, sydd ar gael **YMA** er mwyn gweld pa faterion sydd ar y gweill;**
- **Cyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael **YMA**;**
- **Rhaid i'r cais ysgrifenedig gyrraedd y Swyddog Sgriwtini o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor;**
- **Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at yr unigolion a nodir yn adran 6 isod.**

## 6.0 Manylion Cyswllt

Swyddog Cymorth Sgriwtini 01248 75xxxx
abc@ynysmon.gov.uk

Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor 01248 75xxxx
def@ynysmon.gov.uk

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2020 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar Gyflawni'r Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dim yn berthnasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes.<br>Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol. |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:<br>1. Cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r Cynllun Llesiant yn ei gael ar unigolion a chymunedau

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mesur ansawdd ei waith a'i berfformiad o ran cyflawni'r amcanion fel yr amlinellir yn y Cynllun Llesiant?<br><br>2. I ba raddau mae cyflymder gweithredu ffrydiau gwaith y Bwrdd yn ddigonol?<br><br>3. Beth yw'r prif risgiau neu heriau o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant, a sut eir ati i liniaru'r risgiau hyn?<br><br>4. I ba raddau mae cefnogaeth gadarn gan bartneriaid sy'n aelodau o'r Bwrdd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion llesiant?<br><br>5. Pa gamau ymarferol fydd y Bwrdd yn ymgymryd â nhw er mwyn integreiddio eu blaenoriaethau i mewn i gynlluniau a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill? |

**5. – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Cyflwyniad a chyd-destun**

**5.1.1** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

**5.1.2** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn bryd hynny oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.3** Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant y BGC ar gyfer ardaloedd llesiant Ynys Môn ym mis Mai 2017 ac yna yn dilyn cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori, cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym 2018. Ceir cadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble cytunwyd y gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a bydd y BGC yn ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

**5.2 Diweddariad ar gynnydd yr is-grwpiau**

**5.2.1** Cytunodd y BGC ar feysydd blaenoriaeth i wireddu'r 2 amcan o'r Cynllun Llesiant. Mae pedwar is-grŵp wedi eu sefydlu er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen:

**5.2.2** **Amcan 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor**

| Y Flaenoriaeth | Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Amserlen Arfaethedig |
|---|---|---|
| **Iaith Gymraeg -** Byddwn yn cydweithio i gynyddu'r defnydd | Sefydlwyd yr is-grŵp iaith gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mehefin 2018. Amlygwyd yn y Cynllun Llesiant fod anghysondeb yn | |

| | | |
|---|---|---|
| o'r Iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r Iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir**.** | narpariaeth ddwyieithog gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn.<br><br>Mae'r BGC yn rhannu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn ystyried bod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus, yn ogystal ag adnabod bylchau strategol i'w hamlygu a chyfrannu at drafodaethau o'r fath, yn cyfrannu at ffyniant y Gymraeg.<br><br>Un o weithredoedd cyntaf yr is-grŵp Iaith oedd cymryd rhan ym mhrosiect 'Arfer' (sydd yn delio gyda seicoleg ymddygiad). Roedd prosiect o'r fath eisoes wedi ei dreialu gan Brifysgol Bangor ac fe welwyd cynnydd y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y gweithle, a hyder yn y defnydd o'r Iaith. Credir bod cyflwyno'r prosiect i bartneriaid y Bwrdd yn cynorthwyo'r Is-grŵp Iaith i ymateb i'r flaenoriaeth o'r Cynllun Llesiant sef : cynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg. Bydd data gwaelodlin yn cael ei sefydlu, a bydd yr is-grŵp yn adrodd yn ôl ar gynnydd y prosiect yn rheolaidd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn un o'r partneriaid sydd wedi ymrwymo i'r cynllun, ac yn benodol un adran o wasanaeth yr Adran Blant, Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cafwyd trafodaeth yng nghyfarfod y BGC ym mis Rhagfyr 2019 i'r is-grwp ystyried sefydlu prosiect i edrych yn benodol ar sut mae hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg mewn derbynfeydd (y tu hwnt i hysbysebu/ cynnig gwasanaeth Cymraeg). Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r BGC ym mis Mawrth er mwyn trafod ymhellach.<br><br>Mae'r is-grŵp hefyd wedi cynyddu ei aelodaeth a bellach yn cynnwys | Amserlen cwblhau a chyflwyno'r pecyn adnoddau i Gyngor Sir Ynys Môn yw Mawrth 2021. |

| | | |
|---|---|---|
| | cydweithio gyda'r Gwasanaeth Tân, Yr Heddlu a Choleg Llandrillo a Menai. | |

| Y Flaenoriaeth | Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Amserlen Arfaethedig |
|---|---|---|
| **Effaith Newid Hinsawdd ar lesiant ein cymunedau:** Byddwn yn cydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau. | Mae'r is-grŵp Newid Hinsawdd wedi'i sefydlu ac yn canolbwyntio ar gydweithio i liniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau. Gwyddwn fod ein hinsawdd yn newid ac fe fydd yn parhau i wneud hynny – gan achosi lefel y môr i godi a digwyddiadau tywydd mwy eithafol megis llifogydd. Bydd hyn yn effeithio ar les cymunedau a'r gwasanaethau a ddarperir.<br><br>Mae'r is-grŵp wedi adnabod yr angen i addysgu cydweithio a grymuso ein cymunedau er mwyn eu paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai a wynebir i'r dyfodol, yn hytrach na thrin digwyddiadau tywydd eithafol fel syndod mawr. Mae'n gyfle i BGC Gwynedd a Môn fod ar flaen y gad yng Nghymru; a gosod esiampl trwy ddilyn dull gwahanol a chyfunol o addasu i Newid Hinsawdd.<br><br>Trefnwyd gweithdy ar Addasu i Newid Hinsawdd gan yr is-grŵp ym mis Chwefror 2020 er mwyn trin a thrafod y cymunedau fyddai'n elwa o gynlluniau addasu hinsawdd, rhoddi ystyriaeth i gynlluniau lleol a rhanbarthol blaenorol ar addasu, ystyried dulliau posibl o ymdrin â materion megis ymgysylltu gyda'n cymunedau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Mae rhan 1 y gweithdy wedi ei gynnal, a bydd parhad iddo yn ystod mis Mawrth 2020. Mae cynrychiolaeth o Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu at y drafodaeth. Bydd canfyddiadau'r gweithdy a'r argymhellion ar y ffordd arfaethedig | Adroddiad ar ganfyddiadau'r gweithdy i'w cyflwyno i'r BGC ym mis Mehefin 2020. |

| | | |
|---|---|---|
| | ymlaen yn cael eu cyflwyno i'r BGC ym mis Mehefin 2020. | |

| Y Flaenoriaeth | Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|
| **Cartrefi ar gyfer pobl leol-** Byddwn yn cydweithio gyda'r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion. | Mae'r Is-grŵp cartrefi wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri ac Adra. Tra bod yr is-grŵp cartrefi yn rhoi sylw i gytuno ar drywydd y prosiect, ac yn mesur a monitro'r cynnydd. Mae grŵp arall wedi'i ffurfio i gefnogi'r is-grŵp sef is-grŵp technegol arloesol. Mae cynrychiolaeth ehangach ar yr is-grŵp sef cymdeithasau tai, Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru. Pwrpas y grŵp yma yw gwerthuso modelau tai arloesol, cyfrannu at ymarfer o werthusiad safleoedd a chyfrannu at yr achosion busnes arfaethedig.<br><br>Mae rheolwr prosiect wedi'i phenodi i arwain gwaith yr is-grwp am gyfnod o flwyddyn, ac am ddiwrnod yr wythnos. Ariennir y swydd gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn ac Adra. Mae Cynllun Gweithredu ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 6ed Fawrth, er cymeradwyaeth. Y gweithgaredd sy'n derbyn sylw gan y grwpiau uchod ar hyn o bryd yw:<br>▪ Parhad o'r ymarfer gwerthusiad safleoedd gan bartneriaid y Bwrdd, ar gyfer datblygiadau tai arloesol<br>▪ Cychwyn trafodaethau hefo Prif Weithredwyr y partneriaid am opsiynau ariannu'r datblygiadau ar y cyd. | Cytundeb ar safleoedd a threfniadau ariannu erbyn Gorffennaf 2020. |

| Y Flaenoriaeth | Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|
| **Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau** – | Yn ystod 2019 roedd gan y BGC is-grŵp yn arwain ar y flaenoriaeth tlodi, ond nid yw'r grŵp wedi ymgynnull ers | |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn datblygu'r ddealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi. | rhai misoedd bellach. Cytunwyd yn ystod cyfarfod y BGC ym mis Mehefin 2019 ein bod angen ystyried y gwaith sy'n digwydd yn y maes 'tlodi' gan y ddau Awdurdod Lleol yn gyntaf cyn ystyried sut y gallwn fel Bwrdd ychwanegu gwerth at hynny. Bydd y ddau Awdurdod yn cyflwyno diweddariadau ar y gwaith tlodi yn ystod y cyfarfod ar 6ed Fawrth 2020.<br><br>Mae tîm cefnogi'r BGC wedi parhau i roi sylw i faterion tlodi. Mae swyddogion BGC y gogledd wedi comisiynu Prifysgol Glyndŵr i ymgymryd ag astudiaeth ar rwystrau trafnidiaeth sy'n wynebu unigolion ar draws y rhanbarth, rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd lleoliadau gwaith neu sefydliadau hyfforddiant. Ystyriwyd fod y gwaith ymchwil benodol yma yn bwysig gan fod y boblogaeth dlotaf yn ein plith yn aml yn gorfod ymgartrefu mewn ardaloedd sy'n cynnig llai o wasanaethau a chyfleusterau, rhwystrau at gludiant cyhoeddus. Bydd yr astudiaeth yn gwella ein dealltwriaeth o effaith tlodi ar ein cymunedau, ac yn berthnasol iawn i'r hyn a fynegwyd yn ystod cyfnod yr Asesiadau Llesiant (2017) sef mai'r rhai o ffactorau buasai ein trigolion yn eu newid am eu hardal fyddai trafnidiaeth gyhoeddus a chreu mwy o swyddi. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei rannu gydag aelodau'r BGC ym mis Mehefin 2020.<br><br>Yn ogystal â'r astudiaeth am rwystrau trafnidiaeth mae Swyddogion BGC y gogledd hefyd wedi comisiynu tîm ymchwil Cyngor Gwynedd i gynnal astudiaeth ar gydraddoldeb. Comisiynwyd yr astudiaeth hon er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb ar lefel lleol yn enwedig ar y materion a drafodir yn yr adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" (Y | Adroddiad terfynol ar Rwystrau Trafnidiaeth i'w gyflwyno i'r BGC ym mis Mehefin 2020. |

| | | |
|---|---|---|
| | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018 ). Cyfeirir yn yr adroddiad at effaith tlodi ac amddifadedd ar fywydau ein trigolion ac ar eu llesiant. Un enghraifft yw cyrhaeddiad addysgol. Cyfeirir yn yr adroddiad cydraddoldeb hefyd at gartrefi sy'n llai tebygol o gael mynediad at gar - ac mae hyn yn anochel yn cael effaith sylweddol ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ac yn profi i fod yn rhwystr mewn sawl ystyr (fel bydd yr astudiaeth trafnidiaeth yn amlygu ymhellach).<br><br>Yn dilyn cyfarfod nesaf y BGC ar 6ed Fawrth rhagwelir y bydd dyfodol a ffurf yr is-grŵp tlodi wedi'i gadarnhau. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>6ed Fawrth 2020 |

**5.2.3** Mae dau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' yn cyfarch amcan 2. Cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i ymateb i'r ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin.

**5.2.4 Amcan 2 – Trigolion sy'n Iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da**

| Y Flaenoriaeth | Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Amserlen Arfaethedig |
|---|---|---|
| **Iechyd a gofal oedolion**: Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu | Mae'r is-grŵp iechyd a gofal integredig wedi ei sefydlu a chytunwyd ar y pwrpas canlynol sef 'helpu unigolion i fyw ei bywydau fel y dymunant' a phan fydd angen am ymyrraeth iechyd neu ofal ein bod yn 'darparu'r gefnogaeth briodol' er mwyn iddynt allu dychwelyd i'r bywyd y dymunir. Mae'r weledigaeth yma yn cyd-fynd gyda strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' sydd â'r weledigaeth strategol o ddatblygu gwasanaethau, a'r angen i drawsnewid y modd yr ydym yn gweithio i gefnogi unigolion o fewn ein cymunedau.<br><br>Yn ystod cyfarfodydd cychwynnol yr is-grŵp cytunwyd bod angen is-grwpiau i weithio ar faterion penodol sef plant, | Amserlen y prosiect i'w gytuno yn dilyn y gweithdy |

| | | |
|---|---|---|
| galluogi i fyw yn iach ac annibynnol.<br><br>**Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc:** Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau hir dymor | oedolion, anableddau dysgu ac iechyd meddwl.<br><br>Mae'r prosiect yma yn bwysig i gymunedau Ynys Môn am y rhesymau canlynol:<br>▪ Yn ymateb i newidiadau Demograffeg - poblogaeth sy'n heneiddio<br>▪ Yn ymateb i faterion megis gordewdra ymhlith plant, mae gan hyn oblygiadau iechyd yn y tymor byr a hir, bydd hefyd oblygiadau ar arian cyhoeddus<br>▪ rhoi sylw i gynaliadwyedd ein system iechyd<br>▪ rhoi sylw i'r angen i ddatblygu model ataliol<br>▪ yn cydnabod yr angen i gydweithio ar ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles (gan gynnwys addysg, tai, lles, llai o ddigartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).<br><br>Mewn perthynas â'r bidiau trawsffurfio mae timau trawsffurfio wedi'u sefydlu i gefnogi pob un o'r 8 ardal Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC), er mwyn cefnogi'r gwaith o edrych ar y berthynas rhwng ysbytai a'r TAC.<br><br>Mewn perthynas â'r ffrwd gwaith anableddau dysgu mae gwaith ar droed ym Môn gyda chyllidebau wedi'u cronni er mwyn cryfhau gwasanaethau anabledd dysgu. Mae'n brosiect bychan o gomisiynu ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd a gobeithir ei adeiladu dros gyfnod y grant a thu hwnt. Wrth wneud hyn disgwylir y bydd yn arwain at gomisiynu cryfach ar y cyd a chefnogi gweithwyr i allu gweithio yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | fwy hyblyg o fewn y cyllid sydd wedi ei ddynodi. Ar hyn o bryd, maent yn gweithio tuag at allu cychwyn ar y gwaith ym mis Mehefin 2020 gyda chamau pellach i ddilyn yn ystod cyfnod y gwaith trawsffurfio | |

**5.3 Cyflawni**

**5.3.1** Mae'r pedwar is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Disgwylir bod arweinyddion yr is-grwpiau yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn chwarterol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cyfnod o gyflawni'r amcanion yn gyfle i bartneriaid y BGC ddangos eu parodrwydd a'u hymroddiad i weithio'n gydweithredol ac arloesol ar gynlluniau cyraeddadwy.

**5.3.2** Mae'r BGC yn gweithredu yn unol â saith egwyddor, sef y pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol uchod, ynghyd â dau sydd wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd sef 'Yr Iaith Gymraeg' a 'Chydraddoldeb'. Golyga hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

**5.3.3** Er mwyn ymateb i'r amserlen o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Gorffennaf 2020. Bydd y BGC yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol i Bwyllgor Sgriwtini Ynys Môn cyn hynny er sylwadaeth.

**5.4 Trefniadau Craffu**

**5.4.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd y BGC hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol i ddangos cynnydd wrth iddo geisio cyflawni'r amcanion llesiant. Anfonir copi o bob adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgorau craffu / sgriwtini y cynghorau.

**5.4.2** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

**5.4.3** Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan Bwyllgor craffu / sgriwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad Y BGC bydd panel craffu ar y cyd rhwng y 2 sir yn cael ei ddatblygu i wneud y gwaith yma ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae swyddogion craffu o Wynedd ac Ynys Môn wedi gwerthuso'r opsiynau o barhau gyda threfniadau craffu presennol yr Awdurdodau Lleol neu sefydlu panel ar y cyd. Daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach i ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y 2 Sir. Byddai modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law.

**5.5 Adnoddau**

**5.5.1** Mae rheolaeth a chefnogaeth weinyddol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.

**5.5.2** Cyfrifoldeb pob aelod statudol yn gyfartal yw adnoddau ar gyfer cyflawni gwaith yr is-grwpiau. Bydd y cyfraniadau yn cael eu cytuno a'i hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y gofyn.

**5.6 Rheoli Risgiau**

**5.6.1** Mae'r Bwrdd yn rheoli risgiau mewn perthynas â phrosiectau a gwaith yr is-grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Llesiant a'r amserlen benodedig. Mae cofrestr risg y Bwrdd yn cael ei reoli yn unol â'r pum ffordd o weithio.

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1** Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd â'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. Mae tîm cefnogi'r BGC yn rhoi sylw i ddatblygu teclyn Asesiad Effaith Llesiant yn bresennol. |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| - |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| 1. Cofrestr Risg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn |

## Atodiad 1

## Risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Mae Canllaw statudol gan Lywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Rhan 3 : Y newid sydd ei angen) yn awgrymu y dylai'r Bwrdd ystyried y pum ffordd o weithio i reoli risgiau**:**

"Bydd risgiau tymor hir a fydd yn effeithio ar gyflwyno eich gwasanaethau ond hefyd y cymunedau yr ydych yn eu galluogi i wella. Defnyddiwch y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio i ystyried pa beryglon y gallech fod yn ddarostyngedig iddynt yn y tymor byr, canolig a hir, ynghyd â'r camau a gymerwch i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda".

Awgrymir felly fod cofrestr risg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys mesurau rheoli a chamau gweithredu sy'n cyd-fynd a'r pum ffordd o weithio:
pum dull o weithio:

- **Cynnwys** ein cymunedau a'n trigolion wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd **Gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy.
- Edrych i'r **tymor hir** a chydweithio ar gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn ceisio **integreiddio** gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos bod hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau.
- Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod a deall y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau i'r dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w **hatal** .

Mae'r risgiau isod wedi eu hadnabod gan dîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, bwriedir cael mewnbwn arweinyddion yr is-grwpiau i gytuno a phoblogi cofrestr risg ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson.

| **Cyf.** | **Maes** | **Risg** | **Mesurau Rheoli sydd yn eu lle yn bresennol** |
|---|---|---|---|
| **R1** | **Is-grŵp** | Diffyg adnoddau a chapasiti i yrru gwaith yr is-grwpiau. Risg o ddiffyg cyflawni a methu a chyrraedd y cerrig milltir allweddol | Mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r is-grwpiau gyflwyno achos busnes am adnoddau / gomisiynu gwaith, er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd hefo'u penderfyniad. Er hynny disgwylir yn y lle cyntaf fod yr is-grwpiau yn cynnal y drafodaeth, am yr adnoddau y gallent hwythau gyfrannu cyn cyflwyno achos busnes i'r Bwrdd. Bydd trefniant o'r fath yn parhau.<br><br>Yn ogystal pwysleisir fod cyfle trwy'r Bwrdd i weithio yn fwy arloesol ac mewn partneriaeth, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn hytrach na bod yn or-ddibynnol ar adnoddau. |
| **R2** | **Is-grŵp** | Diffyg presenoldeb ac ymroddiad gan aelodau'r Is-grŵp. Yn gysylltiedig â Risg R1. | Mae'r is-grwpiau bellach yn canolbwyntio ar gyflawni.<br>Er mwyn cadw'r momentwm yn yr is-grwpiau bydd allbynnau clir a phendant yn cael eu datblygu a bydd rôl a chyfrifoldeb aelodau'r is-grŵp yn cael eu diffinio. |
| **R3** | **Cyffredinol** | Methiant i ymgysylltu â'n trigolion a chymunedau ar bwyntiau penodol ac allweddol wrth gyflawni. | Mae ymgysylltu gyda phobl Ynys Môn a Gwynedd a chael gwir ddealltwriaeth o'u hanghenion yn un o elfennau pwysig o'r pum ffordd o weithio.<br><br>Ar gyfer y gwaith ymgysylltu yn gysylltiedig hefo'r asesiadau llesiant rhannwyd y siroedd i mewn i ardaloedd llesiant ac mae modd dadansoddi data'r ymgynghoriadau ar sail yr ardaloedd hyn, sy'n darparu data lleol iawn i'r BGC.<br><br>Bwriedir parhau i ymgysylltu hefo'n trigolion ar bwyntiau penodol. Byddwn yn cydweithio hefo partneriaid allweddol y BGC a'u timau cyfathrebu i ymgysylltu'n effeithiol, yn unol â'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol. |
| **R4** | **Cyffredinol** | Methiant i gwrdd â'n dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn arbennig ym meysydd asesiadau effaith wrth gyflwyno newid sy'n effeithio ar ein trigolion a chymunedau. | Mae tîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth a chydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb) a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. Yn ogystal bydd asesiadau effaith yn cael eu defnyddio pan fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno gan yr is-grwpiau sy'n argymell newid polisi / gwasanaeth. |

SWYDDOGOL

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2020 |
| **Pwnc:** | Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones, (Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd) |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch (Dros Dro) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Christian Branch<br>01248 752491<br>ChristianBranch@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio adolygu a chraffu ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.

2. Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith o ran cymeradwyo'r Cynllun Hamdden, a'i gynnwys, ac yn fwy penodol y cynigion cynnal a chadw a gwella.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae'r Cynllun Hamdden yn ceisio dangos ymagwedd integredig tuag at ofal iechyd ataliol yn Ynys Môn trwy sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden cynaliadwy ac o ansawdd uchel fel y gall trigolion fyw bywydau egnïol ac er mwyn gwella lles ac atal iechyd gwael.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut bydd y Cynllun yn cyfrannu tuag at sicrhau dull integredig o ymdrin â gofal iechyd ataliol ar yr Ynys?

2. Ym mha ffordd mae'r Cynllun yn darparu ymateb priodol i'r cyfleoedd, y bygythiadau a'r heriau a wynebir ar hyn o bryd gan Ganolfannau Hamdden yr Ynys?

3. Mae'r Cynllun yn nodi'r bwriad i annog mwy o gyfranogiad gan bob sector a grŵp oedran. Sut bydd y Gwasanaeth yn mynd ati i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni?

4. Cyfeirir at y ceisiadau sy'n cael eu cwmpasu ar hyn o bryd i sicrhau cyllid cyfalaf o amrywiaeth o ffynonellau ariannu mewnol ac allanol. Pa mor obeithiol yw'r Gwasanaeth o ran sicrhau'r cyllid priodol, ac i ba raddau mae'r Cynllun yn fforddiadwy yn y tymor canolig?

5. I ba raddau y bydd cynigion cynnal a chadw a gwella'r Cynllun yn bodloni anghenion poblogaeth Ynys Môn yn y presennol a'r dyfodol, a beth fydd y blaenoriaethau wrth symud ymlaen?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am ddarparu a rheoli canolfannau hamdden Amlwch, David Hughes, Caergybi a Plas Arthur (yn ogystal â chyfleusterau hamdden eraill). Mae'r canolfannau'n boblogaidd ac yn cael eu defnyddio'n helaeth, gan ddenu dros 530,000 o ymweliadau yn 2018/19. Mae'r canolfannau'n cynnig myrdd o gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol ac yn annog ffyrdd iach o fyw.

Mae Ynys Môn yn wynebu lefelau cynyddol o ordewdra a chlefyd siwgr, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â diwylliant o anweithgarwch corfforol (yn enwedig ymysg pobl ifanc a'r henoed). Mae'r Cyngor Sir yn credu bod angen buddsoddi yn y ddarpariaeth hamdden i wella hyblygrwydd, hygyrchedd, apêl a pherfformiad yr holl gyfleusterau cyfredol er mwyn cynorthwyo i wella lles ac iechyd cwsmeriaid.

Mae canolfannau hamdden yr Ynys yn heneiddio (40+ oed) ac maent, erbyn hyn, yn asedau sy'n gynyddol aneffeithlon. Mae cwsmeriaid yn cydnabod bod angen buddsoddi yn y canolfannau hamdden - ac mae eu hanghenion yn newid yn barhaus ac felly mae'n rhaid i'r canolfannau gynnig cyfleusterau sy'n gynyddol hyblyg er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer ystod o weithgareddau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor Sir wedi cynnal asesiadau helaeth i gael dealltwriaeth lawn o'i bedair canolfan hamdden. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio oddeutu £21M i adnewyddu'r canolfannau hamdden yn rhannol yn unol ag arferion adeiladu modern. Byddai'n costio oddeutu £37M i adeiladu tair canolfan hamdden newydd (Amlwch, Caergybi a Plas Arthur).

Felly mae'r Cynllun Hamdden newydd yn ddatrysiad fforddiadwy a realistig ar gyfer cynnal y canolfannau cyfredol yn y tymor byr i'r tymor canol (tan y bydd yr hinsawdd ariannol wedi gwella.)

Mae’r Cyngor yn bwriadu cadw'r pedair canolfan hamdden sydd ganddo. Mae'r galw am nofio, ynghyd â’r galw nad oes modd cwrdd ag ef am ddarpariaeth ffitrwydd, yn cyfiawnhau parhau i ddarparu pedair canolfan hamdden ar yr Ynys. Ni ellid cwrdd â'r galw gan lai na hynny o ganolfannau na, hyd yn oed, gan un ganolfan hamdden yng nghanol yr ynys.

Gweledigaeth y Cynllun yw ‘**Cynnal, gwella a darparu cyfleusterau hyblyg, hygyrch a fforddiadwy o ansawdd uchel i gwrdd ag anghenion llesiant Ynys Môn ar hyn o bryd ac i’r dyfodol’.**

Ei amcanion yw:

**Cynnal:**

- Cadw’r holl ganolfannau hamdden sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd a diogelu’r cyfleusterau rhag dirywiad pellach.
- Sicrhau cydbwysedd priodol o gyfleusterau hamdden lle mae asesiadau o anghenion wedi nodi galw cyfredol, parhaus neu gudd (heb ei ddiwallu).

**Gwella:**

- Gweithredu rhaglen buddsoddi cyfalaf fforddiadwy i sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n cael eu trawsnewid i fod yn fwy modern, ysbrydoledig ac addas ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys gwelliannau TG a Hunanwasanaeth).
- Sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch ac yn hyblyg i annog cynnydd mewn lefelau cyfranogi.
- Annog mwy o gyfranogiad gan bob sector a grŵp oedran yn y gymuned.
- Integreiddio defnydd cymunedol o gyfleusterau hamdden ar safleoedd addysg mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig a diogel (i wella'r ddarpariaeth gymunedol).

**Darparu:**

- Sicrhau bod digon o gyfleusterau ar gael fel y gall trigolion fod yn rhagweithiol o ran gweithgareddau chwaraeon ac i gefnogi effeithiau cadarnhaol ar iechyd.
- Cynnig cyfleusterau i leihau anweithgarwch corfforol a ffyrdd o fyw goddefol.
- Cefnogi hyfforddi a datblygu’r gweithlu i wella perfformiad a’r gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Cefnogi gweithio mewn partneriaeth (lleol a rhanbarthol) er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau chwaraeon presennol a rhannu sgiliau, arbenigedd ac adnoddau.
- Cadw’r holl ganolfannau hamdden sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd a diogelu’r cyfleusterau rhag dirywiad pellach.
- Sicrhau cydbwysedd priodol o gyfleusterau hamdden lle mae asesiadau o anghenion wedi nodi galw cyfredol, parhaus neu gudd (heb ei ddiwallu).

O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor Sir ar hyn o bryd, cynigir bod angen rhaglen fuddsoddi ar raddfa lai (sy'n canolbwyntio i ddechrau ar waith cynnal a chadw hanfodol) i gynnal y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol. Mae’r gwaith hwn yn werth oddeutu £1M (mae'r rhan fwyaf o’r arian eisoes wedi'i sicrhau).

Er mwyn sicrhau gwelliant gwirioneddol yn y cyfleusterau a gynigir ar hyn o bryd yn yr holl ganolfannau hamdden i wella eu hapêl, eu perfformiad, eu hygyrchedd a’u hyblygrwydd, mae'r Cyngor Sir wedi nodi cyfres o fuddsoddiadau cyfalaf i’w blaenoriaethu hefyd, gan gynnwys ystafelloedd ffitrwydd newydd, llecynnau newid a chaeau 3G. Byddai’r gwelliannau hyn yn costio oddeutu £3M. Ar hyn o bryd mae ceisiadau'n cael eu sgopio ar gyfer sicrhau cyllid cyfalaf o amrywiaeth o ffynonellau ariannu mewnol ac allanol.

Bydd y Cynllun Hamdden yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect presennol (sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth AD a Thrawsnewid.

Er gwaethaf ffocws clir ar ganolfannau hamdden, mae'r Cynllun, lle bo hynny'n berthnasol, hefyd yn cyfeirio at yr angen i gynnal a gwella cyfleusterau hamdden eraill sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol at lesiant a bwrlwm cymunedol. Mae hyn yn dangos ymagwedd gorfforaethol integredig tuag at ddarparu cyfleusterau hamdden yn Ynys Môn.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[yn cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Mae'r cynigion ar gyfer gwaith cynnal ac ar gyfer gwelliannau a welir yn y Cynllun Hamdden wedi'u datblygu i adlewyrchu nifer o egwyddorion, gan gynnwys yr angen i integreiddio datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, diogelu, cyfle cyfartal a hyrwyddo'r Gymraeg.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Paratowyd y Cynllun Hamdden i adlewyrchu'r uchelgais corfforaethol i leihau cost yr holl ddarpariaeth hamdden i lefel sydd mor agos â phosib i £0.

Heb fuddsoddiad a gwaith cynnal a chadw priodol, bydd rhedeg y canolfannau hamdden yn dod yn fwyfwy anodd a byddant yn cau'n ddirybudd oherwydd methiannau yn y systemau trydanol, mecanyddol a gwresogi (gan arwain at golli incwm a chynnydd mewn risgiau iechyd a diogelwch).

Dim ond trwy raglen integredig o fuddsoddi er mwyn mynd i'r afael â systemau gwresogi aneconomaidd y gellir sicrhau gostyngiad yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden – ochr yn ochr â gwella'r cyfleusterau craidd i ddarparu ystod o gyfleusterau amlbwrpas sy'n cynyddu lefelau cyfranogiad a nifer yr ymwelwyr er mwyn cynhyrchu cymaint o incwm â phosib.

Ar hyn o bryd mae cyfleoedd ar gael i sicrhau symiau gweddol fychan o gyllid allanol (tua £1M) ar gyfer gwella adeiladwaith, nodweddion ac effeithlonrwydd ynni pob canolfan hamdden. Manteisir ar y mecanweithiau canlynol (os a phan ddaw'r cyfle) i sicrhau rhagor o gyllid i gyflawni'r buddsoddiadau arfaethedig:

- Incwm a gynhyrchir gan y canolfannau hamdden.
- Cronfeydd wrth gefn y Swyddogaeth Hamdden.
- Cyllid cyfalaf allanol (o gronfeydd rhanbarthol a chenedlaethol).
- Benthyca darbodus y Cyngor Sir.
- Derbyniadau cyfalaf yn sgil cael gwared ar asedau'r Cyngor Sir.
- Cyfraniadau gan ddatblygwyr (taliadau A106) o ddatblygiadau newydd ar Ynys Môn.
- Unrhyw gyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol sy'n deillio o brosiectau mawr (ynni) ar yr Ynys.

Mae cwmpas CSYM i fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden wedi ei gyfyngu o ran terfyn eithrio rhannol TAW (sydd, os rhagorir, yn golygu ad-daliad sylweddol i HMRC).

**8 – Atodiadau**

| |
|---|
| Fersiwn ddrafft o'r Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol (Chwefror 2020). |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Amherthnasol |

## Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

# Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

## Swyddogol

## Chwefror 2020

**Christian Branch**
**Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro –**
**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**Mae cyfleusterau hamdden yn cynorthwyo i siapio lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw, yn hyrwyddo mwynhad o ffyrdd iachach o fyw ac yn rhan annatod o les corfforol a meddyliol y gymuned.**

## 1) Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn gyfrifol am ddarparu a rheoli llawer o gyfleusterau hamdden ar Ynys Môn.

Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys, yn bennaf, Ganolfan Hamdden Amlwch, Canolfan Hamdden David Hughes, Canolfan Hamdden Caergybi a Chanolfan Hamdden Plas Arthur. Mae'r rhain yn gyfleusterau poblogaidd y gwneir defnydd helaeth ohonynt (wedi denu dros 530,000 o ymweliadau yn 2018/19), ac maent yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol ac yn annog ffyrdd iach o fyw.

Mae’r Cyngor Sir yn credu bod angen buddsoddi yn y ddarpariaeth hamdden i wella hyblygrwydd, hygyrchedd, apêl a pherfformiad yr holl gyfleusterau. Bwriad y Cyngor Sir yw cadw pedair canolfan hamdden yr Ynys.

Er gwaethaf mai gwasanaethau dewisol yw’r rheini yn y maes hamdden ni ddylai hynny dynnu oddi ar werth cyfleusterau'r Cyngor Sir a’r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i gymunedau'r Ynys. Mae Ynys Môn yn wynebu lefelau cynyddol o ordewdra a chlefyd siwgr, anhwylderau iechyd meddwl a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â diwylliant o anactifedd (yn enwedig ymysg pobl ifanc a'r henoed). Mae canolfannau hamdden yn darparu cyfleusterau hanfodol i helpu i gefnogi poblogaeth sy’n iachach ac yn fwy heini.

Nod y Cynllun Hamdden hwn, sy'n alinio’n llwyr â Chynllun y Cyngor, yw dangos dull integredig o ymdrin â gofal iechyd ataliol yn Ynys Môn trwy sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden cynaliadwy ac o ansawdd uchel fel y gall trigolion fyw bywydau egnïol ac i atal iechyd gwael a gwella llesiant.

Mae'r Cynllun yn nodi'r angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r ddarpariaeth gyfredol. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn cydnabod yr angen i fuddsoddi yn ei weithlu i gynorthwyo gyda chyflawni’r Cynllun - gan sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n addas i ddarparu gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel a fedr fanteisio ar gyfleoedd i gynyddu’r incwm a gynhyrchir a gwella perfformiad.

Er gwaethaf ffocws clir ar ganolfannau hamdden, mae'r Cynllun, lle bo hynny'n berthnasol, hefyd yn cyfeirio at yr angen i gynnal a gwella cyfleusterau hamdden eraill sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol at lesiant ac egni cymunedol. Mae hyn yn dangos dull corfforaethol integredig o ddarparu cyfleusterau hamdden yn Ynys Môn.

Mae’r Cynllun hefyd yn ceisio alinio â gweledigaeth Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir a'r canlyniadau a'r buddion y disgwylir y byddant yn deillio ohoni. Bydd cyfleusterau ysbrydolgar, modern a chynhwysol yn yr ysgolion yn allweddol er mwyn ysgogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol am oes - yn ogystal â bod o fudd i gymunedau lleol.

## 2) Gweledigaeth CSYM ar gyfer y Ddarpariaeth Hamdden.

***Cynnal, gwella a darparu cyfleusterau o ansawdd uchel, hyblyg, hygyrch a fforddiadwy i gwrdd ag anghenion llesiant Ynys Môn yn awr ac i'r dyfodol.***

Mae angen Gweledigaeth i lywio blaenoriaethau CSYM - gan sicrhau y gellir gwneud defnydd effeithiol a phriodol o adnoddau yn awr ac i'r dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau y gellir gwireddu'r canlyniad a ddymunir. Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu cyflawni'r Weledigaeth hon trwy ganolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

**a) Cynnal:**

- Cadw'r un nifer o ganolfannau hamdden ag sydd gennym ar hyn o bryd a diogelu cyfleusterau rhag dirywiad pellach.
- Sicrhau cydbwysedd priodol o gyfleusterau hamdden lle mae asesiadau o anghenion wedi dangos galw cyfredol, parhaus neu gudd (galw nad yw wedi ei ddiwallu).

**b) Gwella:**

- Cyflawni rhaglen fforddiadwy o fuddsoddiadau cyfalaf i sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n cael eu trawsnewid i fod yn fwy modern, ysbrydolgar ac addas ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys gwelliannau TG a Hunanwasanaeth).
- Sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch ac yn hyblyg i annog cynnydd mewn lefelau cyfranogi.
- Annog mwy o gyfranogiad gan bob sector a phobl o bob oed yn y gymuned.
- Integreiddio'r defnydd cymunedol o gyfleusterau hamdden ar safleoedd addysg mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig a diogel (i wella'r ddarpariaeth gymunedol).

**c) Darparu:**

- Sicrhau bod digon o gyfleusterau ar gael i alluogi trigolion i fod yn rhagweithiol o ran gweithgareddau chwaraeon a chefnogi effeithiau cadarnhaol ar iechyd.
- Cynnig cyfleusterau i leihau anactifedd a ffyrdd o fyw goddefol.
- Cynorthwyo i hyfforddi a datblygu'r gweithlu i wella perfformiad a'r gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Cefnogi gweithio mewn partneriaeth (lleol a rhanbarthol) fel y gellir gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau chwaraeon cyfredol a rhannu sgiliau, arbenigedd ac adnoddau.

**3) Yr heriau, y bygythiadau a'r cyfleon.**

Mae maint a natur yr heriau, y bygythiadau a'r cyfleon y mae CSYM yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn ddigon hysbys. Mae'r rheini sy'n benodol berthnasol i ganolfannau hamdden yr Ynys yn cynnwys:

**Heriau:**

a) Mae angen i'r Cyngor Sir leihau ei wariant, yn enwedig y gwariant ar wasanaethau dewisol.
b) Mae CSYM dan bwysau cynyddol i ddarparu gwell gwasanaethau, gyda llai o adnoddau.
c) Mae demograffeg yr Ynys yn newid, yn enwedig ei phroffil oed.
d) Mae daearyddiaeth a natur wledig Ynys Môn, ynghyd â'r lefelau isel o berchnogaeth car yn ei gwneud hi'n anodd teithio.
e) Mae anghenion a chwaeth cwsmeriaid yn newid yn barhaus - ac mae angen i'r canolfannau hamdden gynnig cyfleusterau hyblyg a fedr ddarparu ar gyfer gweithgareddau newydd (ond rhai sy'n fforddiadwy o fewn cyfyngiadau ariannol CSYM).
f) Uchelgais i leihau cost yr holl ddarpariaeth hamdden i CSYM i lefel sydd cyn agosed â phosib i £0.
g) Dim ond trwy raglen integredig o fuddsoddi i fynd i'r afael â systemau gwresogi aneconomaidd y gellir sicrhau gostyngiad yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden - ynghyd â gwelliant yn y cyfleusterau craidd.
h) Yr angen i rai ffrydiau incwm gefnogi cynaliadwyedd a dichonoldeb cyfleusterau eraill sy'n llai poblogaidd (i gynnal darpariaeth leol / gymunedol).
i) Mae cyflwr presennol y canolfannau hamdden yn atal y Cyngor Sir rhag ystyried y posibilrwydd o fodelau cyflawni amgen.

**Bygythiadau:**

a) Mae'r canolfannau hamdden yn asedau sy'n heneiddio (o leiaf 40 oed ), ac sy'n gynyddol aneffeithlon.
b) Heb fuddsoddiad a gwaith cynnal a chadw, bydd y canolfannau hamdden yn dod yn fwyfwy anodd eu gweithredu ac yn cau'n ddirybudd oherwydd bod systemau trydanol, mecanyddol a gwresogi yn torri i lawr (gan arwain at golli incwm a chynnydd mewn risgiau iechyd a diogelwch).
c) Mae cwsmeriaid yn cydnabod bod y canolfannau hamdden yn heneiddio ac angen buddsoddiad.
d) Cyfyngir ar sgôp CSYM i fuddsoddi oherwydd prinder cyllid cyfalaf (mewnol ac allanol), ynghyd â chyfyngiadau'r eithriad rhannol rhag talu TAW (bydd raid talu arian sylweddol yn ôl i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi os eir y tu hwnt i'r terfyn eithrio).
e) Ansicrwydd yn dilyn atal prosiect adeiladu gorsaf niwclear Wylfa Newydd a'r galwadau a'r effeithiau posib ar y ddarpariaeth hamdden yn ystod adeiladu a gweithredu'r orsaf.

**Cyfleon:**

a) Mae Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i CSYM fynd ati i gynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden, yn ogystal â gwella iechyd corfforol a meddyliol trigolion.
b) Mae Canolfannau Hamdden yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni llawer o flaenoriaethau ac amcanion corfforaethol.
c) Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir yn rhoi cyfle i integreiddio a / neu gydleoli canolfannau hamdden yn well gyda chyfleusterau addysg.
d) Angen manteisio ar lwyddiant rhyngwladol diweddar athletwyr Ynys Môn yng Ngemau'r Ynysoedd 2019 ac adeiladu arno - datblygu cyfleusterau yn benodol i alluogi a chefnogi cynnal y gemau yn Ynys Môn yn y dyfodol (gyda'r Ynys yn cael ei henwi fel yr ynys a ffefrir ar gyfer cynnal gemau 2025).
e) Y galw cyfredol am nofio ym mhob un o ddalgylchoedd y pyllau; ynghyd â’r galw cudd (heb ei ddiwallu) am ddarpariaeth ffitrwydd ar draws yr Ynys a darpariaeth nofio yn ne-ddwyrain Ynys Môn (yn seiliedig ar asesiadau annibynnol).

**4) Egwyddorion**

Wrth weithredu'r Cynllun hwn i gynnal a gwella ei ganolfannau hamdden, bydd CSYM yn glynu wrth yr egwyddorion canlynol:

a) Cefnogi gwelliant yn lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cwsmeriaid.
b) Darparu cyfleusterau hyblyg ac amlbwrpas sy'n ymateb i dueddiadau hamdden yn y dyfodol, anghenion newidiol y cwsmeriaid a’r cynnydd a ragwelir yn y galw.
c) Cyflwyno ystod o gyfleusterau hamdden o safon sy'n cynyddu cyfranogiad, y defnydd a wneir ohonynt a nifer yr ymwelwyr, a hynny er mwyn cynhyrchu cymaint o incwm â phosib.
d) Gostwng yr holl gostau refeniw i lefel fforddiadwy / gynaliadwy.
e) Dyhead i fod yn garbon niwtral trwy leihau'r galw am ynni, y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.
f) Gwneud y mwyaf o fanteision technoleg i wella’r profiad i’r cwsmer.
g) Cefnogi cydleoli cyfleusterau sy'n bwysig i gymunedau cyfagos.
h) Cryfhau'r cysylltiadau gydag ysgolion lleol trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.
i) Integreiddio'r angen am ddatblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, cyfle cyfartal, diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

**5) Cynnydd hyd yma**

Dros y 12 mis diwethaf, mae CSYM wedi cynnal asesiadau helaeth i gael dealltwriaeth lawn o gyflwr ei bedair canolfan hamdden.

Amcangyfrifwyd y byddai'n costio oddeutu £21M i adnewyddu'r canolfannau hamdden yn rhannol yn unol ag arferion adeiladu modern. Byddai costau adeiladu tair canolfan hamdden newydd (Amlwch, Caergybi a Plas Arthur) oddeutu £37M. Ystyrir y byddai'r ad-daliadau blynyddol ar unrhyw fenthyciadau cyfalaf y byddai'n rhaid wrthynt ar gyfer buddsoddiad ar y raddfa hon yn anfforddiadwy ac yn afrealistig o ystyried sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor Sir a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y tymor canol.

Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi cynnal asesiad o'r hyn y bydd cymunedau ei angen o ran darpariaethau hamdden a ffitrwydd yn awr ac i'r dyfodol; demograffeg cwsmeriaid; a'r tueddiadau cyfranogi ar hyn o bryd a'r lefelau cyfranogi posib yn y dyfodol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu cyfleusterau i'r dyfodol.

Mae'r galw presennol am nofio, ynghyd â maint y galw cudd nad yw'n cael ei ddiwallu am ddarpariaeth ffitrwydd ar draws Ynys Môn yn cyfiawnhau parhau i ddarparu pedair canolfan hamdden ar yr Ynys. Ni ellid cwrdd â'r galwadau hyn yn briodol gan lai na hynny o ganolfannau, neu hyd yn oed un ganolfan hamdden yng nghanol yr ynys.

Ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid hefyd i gael barn ein cwsmeriaid a'n trigolion. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun hwn. Mae atborth pwysig yn cynnwys:

- Mae'r mwyafrif o gwsmeriaid y canolfannau hamdden rhwng 35 a 54 oed.
- Caergybi yw'r ganolfan hamdden gyda'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr rheolaidd.
- Ystafelloedd ffitrwydd yw'r cyfleusterau a ddefnyddir amlaf.
- Roedd 25% o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfleusterau o ansawdd gwael neu'n is na'r safon dderbyniol.
- Mae'r gwelliannau y gofynnir amdanynt fwyaf yn cynnwys cyfleusterau newid; lleoedd stiwdio; offer ffitrwydd; Caeau 3G; cyfleusterau plant; pyllau nofio a chaffis.

Tra'n datblygu'r Cynllun hwn, mae CSYM eisoes wedi gallu sicrhau rhywfaint o fuddsoddiad i gyflawni gwelliannau arwyddocaol (sydd wedi cael effaith gadarnhaol o ran nifer y cwsmeriaid, lefelau cyfranogiad a chynhyrchu incwm). Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys gosod ystafell ffitrwydd fodern newydd yng Nghaergybi, a darparu cae 3G maint llawn cyntaf yr Ynys yn Plas Arthur.

**6) Cynigion Cynnal**

O ystyried yr heriau ariannol y mae'r Cyngor Sir yn eu hwynebu, cynigir bod angen rhaglen fuddsoddi ar raddfa lai (gan ganolbwyntio i ddechrau ar waith cynnal a chadw hanfodol) i gynnal y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y tymor byr / canol (h.y. y 5-10 mlynedd nesaf). Dyluniwyd y strategaeth hon fel y gall CSYM barhau i ymateb i heriau parhaus y cyfnod o lymder, tra'n darparu cyfleusterau a chyfleoedd pwysig i gefnogi a gwella lles corfforol a meddyliol cymunedau'r Ynys.

Fel rhan o ddull CSYM o gynnal a chadw cyfleusterau, mae cyfleoedd ar gael ar hyn o bryd i wneud cais am lefelau cymedrol o gyllid allanol (tua £1M) i wella ffabrig, nodweddion ac effeithlonrwydd ynni pob canolfan hamdden. O ystyried eu hoed a'u cyflwr, rhagwelir y gallai materion cynnal a chadw eraill godi yn ystod y cyfnod o gyflawni'r Cynllun hwn.

| Canolfan Hamdden | Gwaith cynnal arfaethedig | Amcangyfrif o'r gost | Ffynhonnell gyllido rhagweledig | Amserlenni | Yr effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amlwch** | Boeler newydd a gwaith trwsio cysylltiedig i system awyru'r pwll | £283,000 | Cynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) | 2020/21 | Gostyngiad mewn costau rhedeg<br><br>Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| | Trwsio'r to a mesurau effeithlonrwydd ynni newydd. | £218,000 | Chynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) a Cyllid Cyfalaf CSYM | 2020/21 | Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| **David Hughes** | Trwsio llawr y dderbynfa | £12,000 | Cyllideb Cynnal a Chadw (CSYM) | 2020/21 | Risg is o ran Iechyd a Diogelwch |
| | Adnewyddu colofnau mynediad (sgwrio â thywod a gorchudd powdr newydd) | £10,000 | Cyllideb Cynnal a Chadw (CSYM) | 2020/21 | Gwelliannau strwythurol ac aesthetaidd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi** | Boeler newydd a gwaith trwsio cysylltiedig i system awyru’r pwll | £283,000 | Cynllun Ailffitio (Rhan 2) (disgwyl cadarnhad) | 2021/22 | Gostyngiad mewn costau rhedeg<br><br>Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| | Mesurau effeithlonrwydd ynni newydd. | £84,000 | Chynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) a Cyllid Cyfalaf CSYM | 2020/21 | Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |
| **Plas Arthur** | Atgyweirio ffrâm ddur a tho’r ger y neuadd chwaraeon, a mesurau effeithlonrwydd ynni newydd | £177,000 | Chynllun Ailffitio (Rhan 1) (wedi ei gadarnhau) a Cyllid Cyfalaf CSYM | 2020/21 | Gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni |

**7) Cynigion Gwella a Darpariaeth**

Er mwyn sicrhau gwelliant ystyrlon yng nghyfleusterau cyfredol pob canolfan hamdden i wella eu hapêl, eu perfformiad, eu hygyrchedd a'u hyblygrwydd (gan gefnogi ffitrwydd, iechyd a lles cymunedol), mae CSYM wedi nodi'r buddsoddiadau canlynol fel rhai a flaenoriaethir.

| Canolfan Hamdden | Y Buddsoddiad a gynigir | Amcangyfrif o'r gost | Ffynhonnell gyllido rhagweledig | Amserlenni | Yr effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amlwch** | Ystyried darpariaeth hamdden newydd fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (gan gynnwys cae 3G newydd) | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Mwy o integreiddio a chydlynu cyfleusterau |
| | Adnewyddu'r ystafell ffitrwydd (i greu cyfleuster ffitrwydd modern a chynhwysol) | £100,000 | Cyflwyno ceisiadau i CSYM yn 2020 am gyllid cyfalaf a cheisiadau am gyllid cyfalaf allanol. | 2021 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Mwy o gyfranogiad gan grwpiau targed (h.y. pobl dros 55 oed) |
| **David Hughes** | Cae 7 pob ochr 3G newydd yn lle'r cyrtiau tenis | £72,000 | Grant Cydweithio wedi ei sicrhau (wedi ei gadarnhau) | Mawrth 2020 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch |
| | Adnewyddu'r ystafell ffitrwydd (i greu cyfleuster ffitrwydd modern a chynhwysol) | £100,000 | Cyflwyno ceisiadau i CSYM yn 2021 am gyllid cyfalaf a cheisiadau am gyllid cyfalaf allanol | 2022 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Mwy o gyfranogiad gan grwpiau targed (h.y. pobl dros 55 oed) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi** | Pentref newid newydd | £400,000 | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Mwy o foddhad cwsmeriaid<br><br>Gwell trefniadau diogelu |
| **Plas Arthur** | Ail-leoli'r caffi; man chwarae meddal newydd, derbynfa well a pentref newid newydd | £1,500,000 - £2,000,000 | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Integreiddio cyfleusterau yn well a gwell trefniadau diogelu |
| | Adnewyddu'r ystafell ffitrwydd (i greu cyfleuster ffitrwydd modern a chynhwysol) | £130,000 | Sicrhawyd £90,000 o gyllid cyfalaf gan CSYM & Grant o £40,000 o'r Gronfa Lleoedd ar gyfer Chwaraeon (wedi ei gadarnhau) | Mawrth 2020 | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Incwm uwch<br><br>Mwy o gyfranogiad gan grwpiau targed (h.y. pobl dros 55 oed) |

**Safleoedd eraill sy'n gysylltiedig â Hamdden**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi** | Cae 3G newydd | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU | Buddsoddiad i wella'r cynnig i gwsmeriaid<br><br>Integreiddio cyfleusterau yn well.<br><br>Cynnydd ym moddhad cwsmeriaid |

**8) Cyflawni'r Cynllun**

I gyflawni'r Cynllun, bydd CSYM yn ceisio manteisio ar y canlynol (os a phan ddaw'r cyfle):

a) Incwm a gynhyrchir gan y canolfannau hamdden.
b) Cronfeydd wrth gefn y Swyddogaeth Hamdden.
c) Cyllid cyfalaf allanol (o gronfeydd rhanbarthol a chenedlaethol).
d) Benthyca darbodus y Cyngor Sir.
e) Derbyniadau cyfalaf yn sgil cael gwared ar asedau'r Cyngor Sir.
f) Cyfraniadau gan ddatblygwyr (taliadau A106) o ddatblygiadau newydd ar Ynys Môn.
g) Unrhyw gyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol sy'n deillio o brosiectau mawr (ynni) ar yr Ynys.

**9) Rheoli Cyfleusterau Hamdden**

Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y Cyngor Sir fydd yn parhau i reoli canolfannau hamdden y Cyngor Sir.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â Chyfadrannau eraill y Cyngor Sir i gefnogi rheoli ei gyfleusterau.

Aseswyd modelau cyflawni amgen, ond ni nodwyd unrhyw fodel sy'n cwrdd ag anghenion y Cyngor Sir neu'n diogelu'r darpariaeth hamdden er budd cymunedau'r Ynys.

**10) Monitro'r Cynllun**

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect cyfredol.

Bydd yr adolygiad yn gwerthuso cynnydd mewn perthynas â Gweledigaeth y Cynllun - yn enwedig o ran gweithgareddau, cyflawniadau, cyfleoedd cyllido posib ac aliniad â Chynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22.

Adroddir ar gynnydd i Fwrdd Rhaglen Drawsnewid y Cyngor Sir ar gyfer Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **11 Mawrth, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. Cefndir

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

### 2. Cyd-destun Lleol

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (25 Chwefror, 2020).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2019/20: Chwarter 4. |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → IONAWR – EBRILL, 2020**
**[Fersiwn dyddiedig 28/02/20]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 23/10/19 → 13/01/20)** | **Ionawr, 2020 (21/01/20)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019) |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cytundeb Gwastraff |
| **Ionawr, 2020 (14/01/20)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni | |
| | |
| **Chwefror, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 03/02/20 → 27/02/20)** | **Chwefror, 2020 (04/02/20)** |
| Cynigion drafft terfynol cyllideb 2020/21 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2020/24 |
| Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Llyfrgelloedd: 2018/19 (eitem er gwybodaeth) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2018/19 |
| | **Chwefror, 2020 (25/02/20)** |
| | Medrwn Môn |
| | Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | |
| **Mawrth, 2020 (09/03/20)** | **Mawrth, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 10/03/20 → 11/03/20)** |
| Monitro Perfformiad Ch3: 2019/20 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | Strategaeth Hamdden |
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: adroddiad cynnydd | Protocol Siarad Cyhoeddus – Pwyllgorau Sgriwtini |
| Protocol Siarad Cyhoeddus – Pwyllgorau Sgriwtini | |
| | |
| **Ebrill, 2020 (06/04/20)** | **Ebrill, 2020 (07/04/20)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gwynedd a Môn |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: adroddiad cynnydd |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith / Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor (wedi'i raglennu ar gyfer 16/06/20)
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor
Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19
Adolygiad Paneli Craffu
Perthynas efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (wedi'i ailraglennu ar gyfer 16/06/20)